**Cydraddoldeb - Y Ddeddfwriaeth**

Mae deddfwriaeth yn ymwneud â chydraddoldeb wedi bodoli ers talwm. Ers y 70au cynnar mae'r amrediad o ddeddfwriaethau parthed tegwch a chydraddoldeb wedi bod yn cynyddu'n gyson ac yn cynnwys y Ddeddf Cyflogau Cyfartal, Deddf Gwahaniaethau ar Sail Rhyw, Deddf Cydraddoldeb Hiliol ac yn ddiweddarach y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, i enwi rhai ohonynt. Cafodd yr holl deddfwriaethau eu dylunio i atal neu roi stop ar anffafriaeth. Rhoddodd y ddeddfwriaeth hawl i unigolion ofyn am gymorth os oeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg ar sail hil, rhyw neu anabledd, ond roedd y cyfrifoldeb ar yr unigolyn i godi'r gwyn ac yn gyffredinol yn berthnasol i'r gweithle yn unig neu mewn rhai achosion i gyflenwad nwyddau a gwasanaethau.

Symudodd deddfwriaeth cydraddoldeb a ddatblygwyd ar ddechrau'r 21 ganrif i ffwrdd o'r deddfau cynnar hyn a rhoddwyd ddyletswydd gadarnhaol ar gyrff cyhoeddus i brofi nad oeddent yn gwahaniaethu ac i sicrhau eu bod yn hyrwyddo cydraddoldeb bob amser wrth ddarparu eu gwasanaethau. Yn ychwanegol at hyn, ehangodd y ddeddfwriaeth i ddiogelu categorïau eraill megis tueddfryd rhywiol, oed a chred a chrefydd.

Dros y deugain mlynedd diwethaf mae'r deddfwriaeth wedi chwarae ei rhan i'n helpu ni i greu cymdeithas fwy cyfartal. Fodd bynnag, roedd yr holl gyfreithiau hyn yn gymhleth ac yn dameidiog ac er gwaethaf y ffaith bod cynnydd wedi'i wneud, mae anffafriaeth ac anghyfartaledd yn bodoli mewn rhai meysydd ac mae cynnydd wedi bod yn araf mewn meysydd eraill. Dyma beth ysgogodd yr angen i greu un ddeddfwriaeth ar gyfer pob agwedd ar gydraddoldeb ac i ddiweddaru, symleiddio a chryfhau'r ddeddfwriaeth flaenorol. Ar 1 Hydref 2010 daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Daeth darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i rym ar wahanol adegau er mwyn rhoi amser i bobl a sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan y cyfreithiau newydd i baratoi ar eu cyfer; fodd bynnag daeth rhan helaeth o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae rhestr o'r darpariaethau a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2010 isod:

- Fframwaith sylfaenol ar gyfer amddiffyn rhag anffafriaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol, aflonyddwch ac erledigaeth mewn gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus; eiddo; gwaith; addysg; sefydliadau a thrafnidiaeth
- Newid diffiniad ailuno rhywedd, drwy gael gwared a'r gofyn am oruchwyliaeth feddygol
- Ymestyn amddiffyniad ar gyfer pobl sy'n dioddef anffafriaeth oherwydd bod ganddynt neu eu bod yn ymddangos bod ganddynt, nodweddion gwarchodedig a thrwy hynny gynnig amddiffyniad newydd ar gyfer pobl megis gofalwyr
- Amddiffyn fwy eglur ar gyfer mamau sy'n bwydo o'r fron
- Gweithredu diffiniad Ewropeaidd parthed anffafriaeth anuniongyrchol er mwyn amddiffyn nodweddion gwarchodedig
- Ehangu'r amddiffyniad yn erbyn anffafriaeth anuniongyrchol i gynnwys anabledd
- Cyflwyno cysyniad newydd o "anffafriaeth sy'n deillio o anabledd", i ddisodli amddiffyniad a gollwyd dan y ddeddfwriaeth flaenorol o ganlyniad i ddyfarniad cyfreithiol
- Gweithredu'r model anfanteisio mewn perthynas ag amddiffyn rhag erledigaeth (gan alinio gyda'r ymdriniaeth mewn Cyfraith Cyflogaeth)
- Cysoni'r trothwyon parthed y ddyletswydd i wneud newidiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl
- Ehangu'r amddiffyniad rhag aflonyddwch trydydd parti i bob nodwedd gwarchodedig
- Ei gwneud hi'n anoddach i sgrinio pobl anabl allan pan fyddant yn ymgeisio am swyddi, drwy gyfyngu'r amgylchiadau lle gall cyflogwyr ofyn cwestiynau i ymgeiswyr swyddi ynghylch anabledd neu iechyd
- Caniatáu hawliadau cyflogau anghyfartal ar sail rhyw lle nad oes gwir gymharydd
- Gwneud cymalau cyfrinachedd cyflog yn anorfodadwy
- Ehangu amddiffyniad mewn clybiau preifat i gynnwys rhyw, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailaseinio rhywedd
- Cyflwyno pwerau newydd ar gyfer tribiwnlysoedd cyflogaeth er mwyn gwneud argymhellion sydd o fudd i'r gweithlu ehangach
- Cysoni darpariaethau sy'n caniatáu gweithredu positif gwirfoddol

Dan A149 o'r ddeddf, mae cyrff cyhoeddus wedi'u rhwymo gan ddyletswydd sector cyhoeddus. Wrth arfer ein swyddogaethau rhaid i ni roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:-

1. Ddileu anffafriaeth, aflonyddwch, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf hon;
2. Datblygu cyfleoedd cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol ac unigolion sydd ddim;
3. Meithrin perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol ag unigolion sydd ddim

Dyma ein dyletswyddau cyffredinol. Mae cyrff cyhoeddus fel ninnau hefyd yn destun deddfwriaethau gwahanol sy'n pennu ein dyletswyddau penodol. Daeth y deddfwriaethau hyn i rym yn Ebrill 2011. Pwrpas y deddfwriaethau yw nodi'r camau penodol y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn, er mwyn gwella ein perfformiad parthed y dyletswyddau cyffredinol ac i gwrdd ag anghenion ein cymunedau yn well.

Mae dolenni isod at wefan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth er mwyn cael gwybodaeth fwy penodol ar y ddeddfwriaeth.

Cwestiynau a ofynnir yn aml

Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Deddf Cydraddoldeb 2010: Beth sydd angen i mi wybod? - Yn cynnwys crynodeb o ganllawiau'r Ddeddf ac esboniad o sut y bydd y newidiadau i'r gyfraith yn effeithio ar wahanol bobl a sefydliadau ac enghreifftiau ymarferol.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi canllaw manwl parthed y gyfraith ar gydraddoldeb ac arfer da.